COFNODION Y CYFARFOD

**Dyddiad:** Dydd Mawrth 16 Ionawr 2001
**Amser:** 9.00am
**Lleoliad:** Ystafell y Llywydd (A3.13)

**Yn bresennol:**

John Marek, y Dirprwy Lywydd (Cadeirydd)
Andrew Davies, y Trefnydd
Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru
William Graham, Rheolwr Busnes y Blaid Geidwadol
Kirsty Williams, Rheolwr Busnes Plaid y Democratiaid Rhyddfrydol

John Lloyd, Clerc y Cynulliad
David Lambert, Cynghorydd Cyfreithiol Swyddfa'r Llywydd
Andrew George, Clerc y Pwyllgor Busnes
Marion Stapleton, Ysgrifennydd Preifat y Trefnydd
Craig Stephenson, Ysgrifenyddiaeth y Siambr
Alun Gruffudd, Ysgrifennydd Preifat y Dirprwy Lywydd
Marie Knox, Pennaeth Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau (eitem 6 ar yr agenda)
Nerys Arch, Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol (eitem 8 ar yr agenda)

## 1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

1.1 Dim

## 2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol

**BC345-00 (terfynol)**

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor yn eu ffurf derfynol. Gan nad oedd unrhyw sylwadau pellach, byddent yn cael eu cyfieithu yn barod ar gyfer eu cyhoeddi. **Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

**BC350-00 (drafft)**

2.2 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor mewn ffurf drafft. Gan nad oedd unrhyw sylwadau, byddent yn cael eu cyflwyno yn y cyfarfod nesaf yn eu ffurf derfynol. **Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

## 3. Materion sy'n codi (BC350-00)

3.1 **Paragraff 3.1** – Dywedodd Marion Stapleton y byddai papur yn cynnig diwygiadau i'r Rheolau Sefydlog er mwyn cydnabod "Gweinidogion" yn barod ar gyfer cyfarfod yr wythnos wedyn. **Gweithredu: Marion Stapleton**

3.2 **Paragraff 3.4** – Dywedodd Marie Knox fod y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO) wedi mynegi rhai pryderon am y diwygiad drafft i'r Rheol Sefydlog ynghylch y Pwyllgor Archwilio. Roedd y cynigion a awgrymwyd gan yr NAO wrthi'n cael eu hystyried, a byddai papur yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor cyn gynted â phosibl. **Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau**

**<u>4. Materion a gyfeiriwyd o'r Cyfarfodydd Llawn</u>**

4.1 Ystyriodd y Pwyllgor y papur BC08-01 a baratowyd yn dilyn pwynt o drefn a wnaed yn y Cyfarfod Llawn ar 11 Ionawr. Ar hyn o bryd, nid yw'r Rheolau Sefydlog yn caniatáu gwelliannau i gynigion sy'n cynnig dadleuon ar adroddiadau a gyflwynwyd gan y pwyllgorau pwnc. Dywedodd y Dirprwy Lywydd fod y papur yn cynnig proses dau gam ar gyfer ystyried adroddiadau'r pwyllgorau pwnc:

- cynnig safonol i'r Cynulliad nodi adroddiad gan bwyllgor pwnc, na ellid cyflwyno gwelliannau iddo. Dim ond galluogi'r Cynulliad i ddadlau adroddiad fyddai'r cynnig hwn;
- posibilrwydd cynigion eraill (y gellid cyflwyno gwelliannau iddynt) a fyddai'n cynnig sut y dylai'r Weinyddiaeth gario argymhellion neu gynnwys arall yr adroddiad yn eu blaen, neu sut y dylai ymateb iddynt.

4.2 Teimlai Kirsty Williams nad oedd yn briodol cyflwyno gwelliannau i gynigion sy'n gwahodd y Cynulliad i nodi adroddiad Pwyllgor y cytunwyd arno. Serch hynny, byddai rhai sefyllfaoedd eraill yn codi pryd y byddai'r pwyllgorau eisiau i'r Weithrediaeth weithredu ar adroddiad, ac efallai y byddai'n briodol cyflwyno gwelliannau i'r cynigion hyn. Dywedodd y Trefnydd y byddai'r Weithrediaeth bob amser yn ystyried adroddiadau ac yn ymateb iddynt, hyd yn oed os y'i gorchmynnwyd i'w nodi yn unig. Yr oedd, felly, yn anfodlon i ailagor y ddadl hon eto. Nododd Jocelyn Davies nad oedd yn rhaid i'r Weithrediaeth ystyried adroddiad os nad oedd yn dymuno gwneud hynny, ac y byddai'r cynnig yn y papur yn mynd i'r afael â hyn. Serch hynny, roedd yn awyddus i osgoi sefyllfa lle yr oedd y Pwyllgor Busnes yn diwygio'r Rheolau Sefydlog dro ar ôl tro er mwyn mynd i'r afael â phroblemau wrth iddynt godi. Cytunodd y Trefnydd na ddylid diwygio'r Rheolau Sefydlog yn rhy aml, ac yr oedd yn fodlon ar y trefniadau fel yr oeddynt yn sefyll ar hyn o bryd.

4.3 Dywedodd y Dirprwy Lywydd y gellid gwneud gwahaniaeth clir rhwng adroddiadau Pwyllgor a gyflwynir i'r Cynulliad eu nodi, a'r rheini sy'n gofyn am ryw fath o gamau gweithredol, ac y byddai'n bosibl i'r Rheolau Sefydlog a'r gweithdrefnau adlewyrchu'r gwahaniaeth hwnnw. Gwahoddodd David Lambert a'r Ysgrifenyddiaeth i ystyried y mater ymhellach ac i adrodd yn ôl. **Gweithredu: David Lambert/Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

**<u>5. Cyngor i'r Cynulliad ar weithdrefnau</u>**

5.1 Ystyriodd y Pwyllgor bapur BC02-01, a oedd yn darparu cynigion i wella diwyg agenda'r Cyfarfodydd Llawn a'u gwneud yn fwy defnyddiol. Roedd y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd wedi cymeradwyo'r newidiadau. Roedd William Graham eisiau trafod y cynigion gyda'i grwp. Roedd y Rheolwyr Busnes eraill yn fodlon ar y cynnig. **Gweithredu: William Graham i drafod gyda'i grwp**

## 6. Y Pwyllgorau

6.1 Ystyriodd y Pwyllgor bapur BC03-01, a chytunodd arno. Cais oedd y papur hwn oddi wrth y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes am gyfarfod ychwanegol ar ddydd Iau, 8 Chwefror 2001.

## 7. Busnes sydd ar y gweill

### Busnes yr wythnos hon

7.1 Dywedodd y Trefnydd nad oedd unrhyw ddatganiadau wedi'u hamserlennu ar gyfer y Cyfarfod Llawn y prynhawn hwnnw. Serch hynny, roedd dau ddatganiad wedi'u hamserlennu ar gyfer dydd Iau 18 Ionawr. Byddai'r Trefnydd yn gwneud datganiad ar y papur ymgynghorol ar yr Oes Wybodaeth, ac Edwina Hart yn gwneud datganiad ar gynnydd yr adeilad newydd.

7.2 Roedd Jocelyn Davies yn bryderus ynghylch y diffyg busnes ar fore dydd Iau. Dywedodd y Trefnydd ei fod wedi clustnodi amser ar gyfer y ddau ddatganiad. Serch hynny, yng ngoleuni'r pryderon a fynegwyd gan y Rheolwyr Busnes, ymrwymodd i gynnwys datganiadau y bwriedir eu gwneud gan y Cabinet mewn datganiadau busnes drafft yn y dyfodol. Croesawodd y Pwyllgor y cynnig hwn. Anghytunodd y Trefnydd gyda William Graham a Jocelyn Davies y dylai dadleuon gymryd lle datganiadau'r Cabinet. Nododd y Dirprwy Lywydd y byddai Gweinidog mwy na thebyg yn cael ei archwilio'n fwy craff petai'n cyflwyno datganiad nag y byddai petai'n cynnig cynnig ar gyfer dadl.

7.3 Ystyriodd y Pwyllgor y datganiad busnes drafft (BC10-01). Amlinellodd y Trefnydd rai mân newidiadau.

### Busnes a gynigir ar gyfer yr wythnosau sy'n cychwyn 22 a 29 Ionawr, a 5 Chwefror 2001

7.4 Cyngor y Pwyllgor i'r Trefnydd ar y datganiad a gynigiodd ynghylch trefniant busnes y Cynulliad ar gyfer yr wythnosau sy'n cychwyn 22 a 29 Ionawr a 5 Chwefror 2001, oedd y dylai fynd ymlaen fel yr amlinellwyd yn y datganiad busnes drafft.

7.5 Mynegodd William Graham ei bryder ynghylch y diffyg busnes a drefnwyd ar gyfer dydd Iau 25 Ionawr a dydd Mawrth 30 Ionawr. Dywedodd Jocelyn Davies fod Plaid Cymru yn fodlon symud ei dadl plaid leiafrifol o 1 Chwefror i 25 Ionawr os byddai hynny'n cynorthwyo i reoli'r busnes. Diolchodd y

Trefnydd iddi am y cynnig hwn, a dywedodd y byddai'n cysylltu â hi'n ddiweddarach.

7.6 Gofynnodd y Trefnydd i'r Rheolwyr Busnes ystyried syniadau ar gyfer dathlu Dydd Gwyl Dewi ar 1 Mawrth, a Diwrnod Rhyngwladol y Menywod yr wythnos ganlynol. **Gweithredu: y Rheolwyr Busnes**

**<u>8. Is-ddeddfwriaeth</u>**

**Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Trefniadau Asesu Cyfnod Allweddol 3) (Cymru) (Diwygio) 2001**

8.1 Nododd y Pwyllgor Busnes bapur BC04-01 a oedd yn darparu cyngor oddi wrth Jane Davidson, Gweinidog y Cynulliad dros Addysg, ar sut i drafod y Gorchymyn uchod. Dywedodd aelodau'r Pwyllgor Busnes wrth y Dirprwy Lywydd eu bod yn fodlon ar gynnwys y cynnig i beidio ag anfon y Gorchymyn drafft i Bwyllgor Pwnc, a chytuno y dylai ddilyn y weithdrefn Garlam.
**Yn dilyn hynny, penderfynodd y Dirprwy Lywydd na fyddai angen cyfeirio'r Gorchymyn i bwyllgor pwnc.**

**Rheoliadau Addysg (Cyraeddiadau Disgyblion Unigol) (Gwybodaeth) (Cymru) (Diwygio) 2001**

8.2 Nododd y Pwyllgor Busnes bapur BC05-01 a oedd yn darparu cyngor oddi wrth Jane Davidson, Gweinidog y Cynulliad dros Addysg, ar sut i drafod y Rheoliadau uchod. Dywedodd aelodau'r Pwyllgor Busnes wrth y Dirprwy Lywydd eu bod yn fodlon ar gynnwys y cynnig i beidio ag anfon y Rheoliadau drafft i Bwyllgor Pwnc, a chytuno y dylai ddilyn y weithdrefn Garlam.
**Yn dilyn hynny, penderfynodd y Dirprwy Lywydd na fyddai angen cyfeirio'r Rheoliadau i bwyllgor pwnc.**

**Rheoliadau Diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2001**

8.3 Nododd y Pwyllgor Busnes bapur BC06-01 a oedd yn darparu cyngor oddi wrth Jane Hutt, Gweinidog y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ar sut i drafod y Rheoliadau uchod. Dywedodd aelodau'r Pwyllgor Busnes wrth y Dirprwy Lywydd eu bod yn fodlon ar gynnwys y cynnig i beidio ag anfon y Rheoliadau drafft i Bwyllgor Pwnc, a chytuno y dylai ddilyn y weithdrefn Safonol.
**Yn dilyn hynny, penderfynodd y Dirprwy Lywydd na fyddai angen cyfeirio'r Rheoliadau i bwyllgor pwnc.**

**Rheoliadau Addysg (Grantiau Safonau Addysg) (Cymru) 2001**

8.4 Nododd y Pwyllgor Busnes bapur BC09-01 a oedd yn darparu cyngor oddi wrth Jane Davidson, Gweinidog y Cynulliad dros Addysg, ar sut i drafod y Rheoliadau uchod. Dywedodd aelodau'r Pwyllgor Busnes wrth y Dirprwy Lywydd eu bod yn fodlon ar gynnwys y cynnig i beidio ag anfon y Rheoliadau drafft i Bwyllgor Pwnc, a chytuno y dylai ddilyn y weithdrefn Garlam.

**Yn dilyn hynny, penderfynodd y Dirprwy Lywydd na fyddai angen cyfeirio'r Rheoliadau i bwyllgor pwnc.**

**Hysbysu'r Aelodau ynghylch Is-ddeddfwriaeth sydd ar y gweill**

8.5 Esboniodd y Dirprwy Lywydd ei bryderon am y wybodaeth sydd ar gael i'r Aelodau ac i'r cyhoedd ynghylch eitemau o is-ddeddfwriaeth sydd un ai gerbron y Cynulliad ar gyfer eu hystyried, neu sydd wedi'u gwneud. Cyfrifoldeb y Llywydd yw cyhoeddi is-ddeddfwriaeth na chaiff ei chyhoeddi fel arall, a dylai'r Aelodau a'r cyhoedd fedru cael gafael ar wybodaeth am bob eitem o is-ddeddfwriaeth yn rhwydd.

8.6 Esboniodd David Lambert pa wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd am is-ddeddfwriaeth ar wefannau Mewnrwyd a Rhyngrwyd y Cynulliad. Mae'n debyg fod y sefyllfa fel a ganlyn:

- roedd pob un o'r safleoedd yn cynnwys gwybodaeth am agweddau gwahanol, ac o'u rhoi at ei gilydd, nid oeddynt yn rhoi darlun cyflawn a chlir naill ai o is-ddeddfwriaeth ddrafft y Cynulliad nac is-ddeddfwriaeth a wnaed yn barod;
- roedd dau ddull gwahanol o gyflwyno'r wybodaeth, un ai ar ffurf rhestr neu drwy gyfeirio at fisoedd unigol, lle roedd rhaid chwilio drwy'r misoedd penodol er mwyn cael gafael ar wybodaeth berthnasol;
- nid oedd rhestr yn unman o offerynnau statudol drafft a gyflwynwyd gerbron y Cynulliad;
- nid oedd rhestr o offerynnau statudol cyffredinol heblaw am gyfeiriad i wefan HMSO. Nid oedd y rhestr honno o reidrwydd yn dangos is-ddeddfwriaeth cyn iddi ddod i rym;
- nid oedd yr un rhestr o reidrwydd yn gynhwysfawr;
- roedd y gymysgedd o restrau o is-ddeddfwriaeth, gorchmynion a chylchlythyron yn ddryslyd.

Tynnodd sylw hefyd at gylchlythyron a oedd yn cynnwys is-ddeddfwriaeth, ond a oedd yn edrych fel cylchlythyr, a mwy na thebyg nad oeddynt wedi'u rhestru fel is-ddeddfwriaeth. Roedd angen ystyried y sefyllfa hon.

8.7 Cytunodd y Trefnydd i ystyried y mater. **Gweithredu: Y Trefnydd**

**<u>9. Diwygiadau i'r Rheolau Sefydlog</u>**

9.1 Ystyriodd y Pwyllgor bapur BC07-01 ar ddiwygiadau a gynigir i Reol Sefydlog 3 er mwyn galluogi Pwyllgor y Ty i gyflawni ei ddyletswyddau yn llawn o ran penderfynu cyflogau, lwfansau a phensiynau, a chytunwyd arno. Byddai adroddiad y Pwyllgor Busnes yn cael ei baratoi fel y gellid cytuno arno yn y cyfarfod yr wythnos ddilynol.

9.2 Dywedodd Craig Stephenson fod angen rhai mân newidiadau i Reol Sefydlog 6 er mwyn ystyried y newidiadau i amserau agor y Swyddfa Gyflwyno ac oherwydd bod Rheol Sefydlog 22 wedi'i rhannu. Byddai hyn

hefyd yn cael ei gynnwys yn adroddiad y Pwyllgor Busnes. **Gweithredu: Craig Stephenson**

## 10. Dyfarniadau'r Llywydd

10.1 Dim

## 11. Unrhyw fusnes arall

11.1 Dim

**YSGRIFENYDDIAETH Y SIAMBR**